# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 15 Ionawr 2013 i'w hateb ar 29 Ionawr 2013

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0872(FM)

2. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch sut y mae ei bolisïau yn gwella addysg yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0870(FM)

3. **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu gwerth am arian mewn prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ledled Cymru. OAQ(4)0873(FM)

4. **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Ardaloedd Menter yng Nghymru. OAQ(4)0877(FM)

5. **Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y teithiau a gymerir ar fysiau neu ar drenau ledled Cymru. OAQ(4)0880(FM)

**6. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig ym mhob injan dân. OAQ(4)0875(FM)

**7. David Rees (Aberafan):** Beth yw blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorllewin De Cymru. OAQ(4)0882(FM)

**8. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfraniad cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol at economi Cymru. OAQ(4)0871(FM)

**9. Ken Skates (De Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio tai yn 2013. OAQ(4)0878(FM)

**10. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Lywodraethu. OAQ(4)0869(FM)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad i Faes Awyr Caerdydd o Orllewin De Cymru. OAQ(4)0874(FM)

**12. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Sut y mae myfyrwyr o Ogledd Cymru sy'n byw mewn ardaloedd a arferai fod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn gallu cael cyllid o dan y rhaglen Ymestyn yn Ehangach. OAQ(4)0881(FM)

**13. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw cynllunio gofodol morol yn parhau yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. OAQ(4)0883(FM)**W**

**14. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gydnabyddiaeth a roddir i'r unigolion hynny a fu'n gwasanaethu Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd. OAQ(4)0876(FM)

**15. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gogledd Cymru yn 2013. OAQ(4)0879(FM)